



**YSGOL
LLANFYLLIN**

18.11.20

Annwyl Riant / Ofalwr,

Pwrpas y llythyr hwn yw eich hysbysu y bu adolygiad o waith cartref yng nghyfnod cynradd Ysgol Llanfyllin. Rydym wedi penderfynu treialu ail gyflwyno gwaith cartref er mwyn cefnogi dysgu a sicrhau bod ein disgyblion yn cyflawni eu potensial llawn.

Byddwn yn cyflwyno hwn yn raddol, felly o Ddydd Llun Tachwedd 23^{ain} disgwylir i holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 gwblhau 30 munud o ddarllen yn ystod yr wythnos, nid oes raid cyflawni hyn ar un tro, gall fod yn ddau gyfnod o 15 munud neu 5 munud bron bob nos. Gyda disgyblion y cyfnod sylfaen, efallai y gallwch ddarllen stori i'ch plentyn a chanolbwyntio ar y ffoneg.

Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn dangos i'r plant sut i ddefnyddio pecyn Mathemateg yn y dosbarth, y disgwylid fydd iddynt gwblhau 30 munud naill ai yn "Numbots" i ddisgyblion Derbyn a Blwyddyn 1 neu "TT Rockstars" i ddisgyblion Blwyddyn 2 hyd Flwyddyn 6, eto gall hyn gael ei wneud fesul cam yn ystod yr wythnos.

O ddechrau tymor y Gwanwyn bydd disgyblion hefyd yn cael mat sialens gwaith cartref, pryd y byddant yn medru dewis tasg yn wythnosol yn seiliedig ar thema'r tymor. Bydd hwn yn cael ei osod ar J2e drwy Hwb ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ac ar Microsoft Teams i Gyfnod Allweddol 2, gan ganiatáu i ni roi adborth yn ddigidol. Mwy o wybodaeth ynglŷn â hwn i ddilyn yn y flwyddyn newydd.

Byddem yn llwyr werthfawrogi eich cyd weithrediad a'ch cefnogaeth er mwyn i hyn weithio.

Yn gywir

Mrs A. Roberts
Pennaeth Cynorthwyol

Cysylltwch / Contact

Llanfyllin, Powys SY22 5BJ
Ffôn / Telephone: (01691) 648391
office@llanfyllin.powys.sch.uk
www.llanfyllin.powys.sch.uk

Tîm Arweinyddiaeth / Leadership Team

Pennaeth / Headteacher:
Mr Dewi Owen
Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher:
Mr Llŷr Thomas

Penaethiaid Cynorthwyol /

Assistant Headteachers
Mr Huw Lloyd-Jones
Mrs Ann Roberts
Mrs Sioned Vaughan

Rheolwr Busnes/Business Manager

Mrs Sarah Hunter
CADY/ALNCO
Mrs Rhiannon Molyneux